**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

11 Mawrth 2025

Annwyl Aelod,

Yn ystod y Cwestiwn Llafar a atebais ar 12 Chwefror yn ymwneud â pholisi cynllunio a chefnogi cymunedau yr effeithiwyd arnynt gan lifogydd (OQ62289), ymrwymais i ysgrifennu at yr Aelodau i dynnu eu sylw at fodolaeth y cynllun yswiriant Flood Re, a'i argaeledd. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig oherwydd ei gyfrifoldeb portffolio fel arweinydd gweinidogol ar lifogydd.

Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae sicrhau yswiriant cartref fforddiadwy mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd wedi dod yn fater difrifol. Mae yswirwyr wedi derbyn mwy o hawliadau drutach oherwydd llifogydd, ac mae cwsmeriaid wedi gweld cynnydd ym mhrisiau premiymau yswiriant a ffioedd uwchlaw'r terfyn. Gyda thua un o bob deg cartref yn y DU wedi'u lleoli ar orlifdiroedd, ac ardaloedd cyfan yn cael eu heithrio yn raddol rhag gallu cael yswiriant fforddiadwy a mynediad at yswiriant llifogydd, mae wedi dod yn fater sy'n gynyddol heriol.

Cyflwynwyd FloodRe gan Lywodraeth y DU. Nod y cynllun sy'n weithredol ledled y DU yw darparu yswiriant fforddiadwy ar gyfer eiddo sydd mewn perygl o lifogydd. Mae'n system sy'n cael ei harwain gan y farchnad ac mae wedi'i chysylltu'n benodol â pholisïau gwrthsefyll llifogydd a gwydnwch. Sefydlwyd Flood Re drwy *Ddeddf Dŵr 2014* a daeth i rym yn 2016.

Mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio â Chymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI) a Flood Re gan roi cyngor ar ymateb i lifogydd, adfer ar ôl llifogydd, a gwneud cartrefi'n fwy gwydn yn y dyfodol. Mae cydweithwyr Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru wedi cyfarfod sawl gwaith yn ddiweddar i ddeall yn well y problemau o safbwynt cael yswiriant llifogydd fforddiadwy gydag ABI a Flood Re, a'i hyrwyddo. Mae'r cynllun wedi cael rhai llwyddiannau nodedig. Er enghraifft, mae bron i 250,000 o aelwydydd wedi elwa ac mae pedwar o bob pum eiddo sydd wedi cyflwyno hawliadau am ddifrod llifogydd yn y gorffennol wedi gweld prisiau'n gostwng 50%. Ar ben hynny, gall 99% o aelwydydd sydd â risg uchel o lifogydd bellach gael dyfynbrisiau gan 15 neu fwy o yswirwyr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyhoeddi data mapio llifogydd Asesiad Perygl Llifogydd Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru (FRAW) hefyd yn cefnogi ceisiadau am wybodaeth sy'n ymwneud ag yswiriant yn llawer gwell. Er bod yswiriant yn fater a gadwyd yn ôl, mae hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r mater datganoledig o reoli perygl llifogydd ac mae wedi elwa ers amser bellach o ddull cydgysylltiedig ledled y DU.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth uchod o gymorth ichi a'ch etholwyr.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning